Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Dweud eich dweud - pobl ifanc, cyfranogiad a chynghorau ysgol

Chwefror 2008

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad	**1**
Diben	1
Cefndir	**2**
Prif ganfyddiadau	**3**
Cydymffurfio â rheoliadau yn ymwneud â chynghorau ysgol	3
Dull ysgol gyfan ar gyfer cyfranogi	3
Defnyddio gwefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk	4
Argymhellion	**5**
Y Cyngor Ysgol	**6**
Cydymffurfio â Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005	6
Dulliau ysgol gyfan ar gyfer cyfranogi	10
Defnyddio gwefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk	13
Atodiad	**15**
Cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau	15

Cyflwyniad

Diben

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi papur sefyllfa i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y graddau y mae:

- ysgolion uwchradd yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005[1] ac yn ystyried yr arweiniad dilynol a gyflwynwyd yn 2006[2];
- rheoliadau yn cefnogi dulliau ysgol gyfan ar gyfer cyfranogiad disgyblion; ac
- ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o wefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk.

2 Mae atodiad i'r adroddiad hwn yn adolygu'r graddau y mae pobl ifanc 11-25 oed yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am agweddau ar eu haddysg a'u hyfforddiant yn y sectorau canlynol: darparwyr dysgu yn y gwaith, gwasanaethau cymorth ieuenctid, colegau addysg bellach, gwasanaethau addysg awdurdod lleol a hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

3 Yn ychwanegol, amlygir yn y testun rai enghreifftiau o arfer dda a nodwyd gan arolygwyr.

[1] http://www.england-legislation.hmso.gov.uk/legislation/wales/wsi2005/20053200e.htm
[2] http://new.wales.gov.uk/publications/circular/circulars2006/1552974/?lang=en

Cefndir

4 Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn nodi'r gofynion i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac eithrio ysgolion meithrin a babanod, sefydlu cyngor ysgol. Diben y cyngor ysgol yw 'galluogi disgyblion i drafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw faterion eraill o bryder neu ddiddordeb iddynt ac i wneud sylwadau ar y rhain i'r corff llywodraethol a'r pennaeth'[3].

5 Mae'r rheoliadau yn nodi'r trefniadau ymarferol ar gyfer cynghorau ysgol, gan gynnwys gofynion aelodaeth a threfniadau pleidleisio. Yn ychwanegol, mae'n egluro'r gofyniad i fyny at ddau o aelodau cyngor ysgol i gael y cyfle i ddod yn llywodraethwyr disgyblion cysylltiol.

6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu gwefan, www.cynghorauysgolcymru.org.uk i helpu ysgolion i ddatblygu cynghorau ysgol.

7 Yr adroddiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau gan Estyn ar gyfranogiad plant a phobl ifanc. Roedd yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2005-2006, yn canolbwyntio ar gyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Roedd yr ail adroddiad yn adrodd ar gyfranogiad mewn ysgolion cynradd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn http://www.estyn.gov.uk/publications/Young_Peoples_remit_report.pdf a http://www.estyn.gov.uk/publications/Remit_report_Decision_making.pdf yn y drefn honno.

8 Mae'r diffiniad o gyfranogiad a ddefnyddir gan arolygwyr yn y cyngor hwn fel a ganlyn:
'Mae Cyfranogiad yn golygu bod gen i'r hawl i gael y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau neu gynllunio ac adolygu unrhyw weithred a all effeithio arna i. Cael llais, cael dewis.'[4].

9 Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- adroddiadau ar 43 o ysgolion uwchradd, 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, naw o wasanaethau Awdurdod Addysg Lleol, pump o ddarparwyr addysg bellach, pedwar gwasanaeth cymorth ieuenctid ac un darparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, a arolygwyd rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007;

- data ystadegol yn ymwneud â defnyddio www.cynghorauysgolcymru.org.uk a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; a

- chanfyddiadau o arolwg ffôn o 35% o ysgolion uwchradd ac ymweliadau â 10% o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007.

[3] Nodiadau esboniadol, Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005
[4] Hwn oedd y sylw buddugol mewn cystadleuaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc. Mae hwn wedi cael ei fabwysiadu gan LICC a'r Consortiwm Cyfranogiad i esbonio'r hyn y mae 'cyfranogiad' yn ei olygu yng Nghymru.

Prif ganfyddiadau

Cydymffurfio â rheoliadau yn ymwneud â chynghorau ysgol

10 At ei gilydd, mae ysgolion uwchradd yn cydymffurfio â bron pob un o ofynion Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005.

11 Mae'r rheoliadau yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau yn y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru. Mae'r rheoliadau wedi cryfhau statws cynghorau ysgol.

12 Roedd gan bron bob ysgol gyngor ysgol cyn i'r rheoliadau gael eu cyflwyno. Felly, mae'r rheoliadau yn ffurfioli arfer bresennol, ac eithrio'r rheoliadau yn ymwneud â llywodraethwyr disgyblion cysylltiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr disgyblion cysylltiol gael eu hethol gan ddisgyblion.

13 Dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau yn ymwneud â llywodraethwyr disgyblion cysylltiol.

14 Mae effaith y cyngor ysgol yn arwyddocaol mewn nifer fach o ysgolion yn unig. Yn yr ysgolion hyn, caiff disgyblion eu cynnwys yn y broses o benodi staff uwch ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau am ddyrannu cyllidebau a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

15 Mewn rhai ysgolion, ni chaiff y disgyblion ddigon o gyfleoedd strwythuredig i fynegi eu barn mewn cynghorau ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn aml yn cael eu hannog ddigon i astudio yn annibynnol neu i ddatblygu medrau gwneud penderfyniadau[5].

16 Nifer fach iawn o ysgolion yn unig sy'n methu ymateb i farn disgyblion. Nid yw'r ysgolion hyn wedi blaenoriaethu cyfranogiad disgyblion ac nid ydynt wedi datblygu'r cyngor ysgol yn unol â'r rheoliadau.

Dull ysgol gyfan ar gyfer cyfranogi

17 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r cyngor ysgol wedi cyflwyno mwy o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan ddisgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae'r dull ar gyfer cyfranogiad disgyblion wedi treiddio i agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Yn yr achosion gorau, mae adborth gan ddisgyblion yn arwain fwyfwy at welliannau mewn addysgu a dysgu, oherwydd bod athrawon yn ymateb i'r adborth ac yn addasu'r ffordd y maent yn addysgu lle bo'n briodol.

[5] Mae'r Fframwaith Sgiliau anstatudol arfaethedig ar gyfer Cymru yn ymdrin â datblygiad medrau meddwl disgyblion, gan gynnwys medrau gwneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith ar gael yn http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/Consultations/870830/1096456/skills-cons-e?lang=en

18 Mae rhai ysgolion yn defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn dda i ganfod barn disgyblion. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gymryd camau cynnar ac effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon disgyblion.

19 Mae gan rai cynghorau ysgol gysylltiadau effeithiol â sefydliadau eraill yn y gymuned leol. Trwy'r cysylltiadau hyn, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth am brosesau gwneud penderfyniadau ac maent yn datblygu medrau i gymryd rhan mewn trafodaethau.

Defnyddio gwefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk

20 Mae'r athrawon sy'n gyfrifol am y cyngor ysgol mewn tua hanner o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o'r wefan, ond llai na thraean sydd wedi'i defnyddio.

21 Nid oes unrhyw athrawon, llywodraethwyr na disgyblion wedi defnyddio'r fforwm ar y wefan.

22 Mae llawer o athrawon yn teimlo nad oes angen adnoddau arnynt i gefnogi sefydlu eu cyngor ysgol oherwydd roedd ganddynt gyngor ysgol eisoes cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

23 Mae llawer o gynghorau ysgol wedi'u hen sefydlu. Nid oes digon o adnoddau i helpu'r cynghorau hyn, neu gynghorau llai sefydledig, i ymestyn y dylanwad a gaiff disgyblion mewn ysgolion trwy roi mwy o sylw i faterion sy'n effeithio ar addysgu a dysgu.

24 Yr astudiaethau achos yw'r rhan fwyaf defnyddiol o'r wefan gan eu bod yn galluogi athrawon i ddeall nodweddion arfer dda.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 roi arweiniad i ysgolion ar rôl llywodraethwyr disgyblion cysylltiol; a

A2 gwneud yn siwr bod unrhyw gyngor, arweiniad ac adnoddau a ddarperir ar gyfer ysgolion, gan gynnwys gwefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk yn bodloni anghenion cynghorau ysgol sefydledig.

Dylai ysgolion:

A3 gydymffurfio â'r rheoliadau ar lywodraethwyr disgyblion cysylltiol; ac

A4 ymgysylltu â disgyblion mwy wrth:

a gynllunio ar gyfer gwella ysgol;

b hunanarfarnu ysgol; ac

c wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar addysgu a dysgu.

Cynghorau Ysgol

Cydymffurfio â Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

25 At ei gilydd, mae ysgolion uwchradd yn cydymffurfio â bron pob un o ofynion y rheoliadau, ac mae'r rheoliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru. Mae'r rheoliadau wedi cryfhau statws y cyngor ysgol mewn ysgolion, ac mae bron pob cyngor ysgol yn dylanwadu ar agweddau ar wneud penderfyniadau mewn ysgolion uwchradd. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae penaethiaid ac aelodau eraill o staff yn gweithio'n dda gyda'r cyngor ysgol i ysgogi gwelliannau.

26 Roedd gan bron bob ysgol gyngor ysgol cyn cyflwyno'r rheoliadau. Ond mae'r rheoliadau wedi ffurfioli arfer bresennol (ac eithrio'r ffaith nad oedd gan ysgolion lywodraethwyr disgyblion cysylltiol ar y cyfan o'r blaen). Yn ychwanegol, mae cyflwyno'r rheoliadau wedi annog ysgolion i adolygu eu harfer gyfredol.

27 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ysgol gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau ysgol yn cyfarfod yn amlach na hyn.

28 Mae'r cyngor ysgol yn dylanwadu ar benderfyniadau am drefniadau ymarferol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau fel y rheiny sy'n ymwneud â gwisg ysgol, cyfleusterau toiled a dewisiadau sydd ar gael amser prydau bwyd. Fodd bynnag, yn aml, dim ond gwelliannau bach sy'n cael eu gwneud i'r materion hyn, er gwaethaf ymglymiad y disgyblion.

29 Mae effaith y cyngor ysgol yn arwyddocaol mewn nifer fach o ysgolion yn unig. Yn yr ysgolion hyn, caiff disgyblion eu cynnwys yn y broses o benodi staff uwch, ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau cyllideb ac yn newid gweithdrefnau'r ysgol. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn helpu datblygu polisïau'r ysgol, fel gwobrwyo a chosbi disgyblion, camddefnyddio sylweddau, ailgylchu a pholisïau gwrth-fwlio.

Astudiaeth achos 1: Mae cyngor ysgol yng nghanolbarth Cymru yn cyfrannu'n dda at ddatblygu polisïau.	Trwy weithio'n effeithiol â llywodraethwyr, cyfrannodd y cyngor ysgol at y prosesau ar gyfer dewis a phenodi staff, ac mae'n rhoi adborth parhaus i staff ar arddulliau a dulliau addysgu. O ganlyniad, mae gan y cyngor ysgol ddealltwriaeth well o gyfrifoldeb disgyblion i gymryd rhan yn weithredol mewn addysgu a dysgu. Mae'r cyngor yn gwneud cyfraniadau defnyddiol iawn wrth weithio gyda staff uwch ar bolisïau yn ymwneud ag ymddygiad disgyblion. Trwy systemau ethol ac adborth y cyngor ysgol, mae disgyblion yn berchen ar y polisïau y maent wedi cyfrannu atynt ac maent yn ymateb yn dda i'w rhoi ar waith.

30 Yn ychwanegol, gall disgyblion mewn ysgolion lle mae cynghorau ysgol yn hynod ddylanwadol effeithio ar agweddau ar addysgu a dysgu. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

- disgyblion yn cefnogi athrawon i arfarnu profiadau dysgu a gwneud gwelliannau o ganlyniad;
- cynghorau grŵp blwyddyn yn gweithio gydag athrawon i'w helpu i gael syniad o farn disgyblion ar brofiadau ystafell ddosbarth; a
- disgyblion yn rhannu eu barn ar ddull yr ysgol o ran 'asesu ar gyfer dysgu'.

Astudiaeth achos 2: Mae ysgol ffydd yn ne ddwyrain Cymru yn defnyddio cynllun gwella ysgol blynyddol y disgyblion eu hunain i wella adborth i ddisgyblion.	Mae gan y disgyblion eu cynllun gwella ysgol blynyddol eu hunain. Mae'r cyngor ysgol yn ystyried cwestiynau penodol yn ystod y flwyddyn i helpu staff i gyflwyno'r cynllun yn effeithiol. Un o nodau'r cynllun ar gyfer 2006-2007 oedd 'gwella ansawdd yr adborth i fyfyrwyr a hyrwyddo dysgu'. Gofynnwyd i'r cyngor ysgol ystyried cryfderau a gwendidau'r modd yr oedd gwaith yn cael ei farcio ar draws yr ysgol. Yna, trafodwyd hyn mewn cynghorau blwyddyn ac mewn grwpiau dosbarth er mwyn cynnwys pob disgybl. Fe wnaeth y dirprwy bennaeth sy'n arwain y gwaith hwn gyfarfod â'r cyngor ysgol i drafod eu barn. Yn dilyn y gwaith a wnaeth y cyngor ysgol a disgyblion eraill i wella adborth a hyrwyddo dysgu, cyflwynodd yr ysgol ddull newydd o 'asesu ar gyfer dysgu'. Yn ychwanegol, mae grŵp ffocws o ddisgyblion yn cyfarfod yn rheolaidd gydag athrawon i fonitro ei ddatblygiad

31 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan aelodau'r cyngor ysgol rolau blaenllaw wrth gefnogi eu cyfoedion, a helpu'r ysgol i roi cymorth i ddisgyblion. Mae cynlluniau fel 'mentora cyfoedion' a 'systemau cyfaill' yn helpu pobl ifanc i gael y cymorth y mae ei angen arnynt i ddod yn eu blaenau â'u dysgu. Mae pobl ifanc yn cefnogi pobl ifanc eraill yn y cynlluniau hyn ac yn gwneud yn siŵr bod eu cyd-ddisgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo â'u dysgu.

32 Mewn tua thraean o ysgolion, mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau hunanarfarnu. Lle mae penaethiaid yn gwrando yn effeithiol ar adborth disgyblion, caiff systemau cymorth a gweithdrefnau asesu eu newid o ganlyniad.

Astudiaeth achos 3: Mae cyngor ysgol yng Ngogledd Cymru yn dylanwadu ar ddewisiadau cwricwlwm ôl-16.	Roedd y pennaeth mewn un ysgol yn cefnogi cynrychiolwyr o gynghorau o bob blwyddyn i ddeall sut y penderfynodd yr ysgol ar ba bynciau y byddai yn eu cynnig i ddisgyblion ôl-16. Sicrhaodd yr uwch dîm rheoli fod disgyblion yn deall gofynion y cwricwlwm, cyfyngiadau'r amserlen, yr adnoddau oedd ar gael a'r ddarpariaeth a gyflwynir gan bartneriaid eraill. Fe wnaeth y cyngor ysgol helpu'r uwch dîm a'i ddarparwyr partner i benderfynu ar yr ystod o bynciau sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol ôl-16. Newidiodd yr ysgol yr ystod o bynciau a chymwysterau oedd ar gael trwy ymateb i anghenion a diddordebau dysgwyr ac ni chododd ddisgwyliadau'r bobl ifanc mewn modd afrealistig.

33 Mae gan leiafrif o gynghorau ysgol gyllidebau; mae hyn yn rhoi mwy o statws i'r cyngor ysgol, ac mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy. Fodd bynnag, gall cynghorau ysgol fod yn effeithiol heb fod ganddynt eu cyllidebau eu hunain, ar yr amod bod y pennaeth a'r corff llywodraethol yn ystyried ceisiadau am adnoddau gan y cyngor ysgol yn deg ac yn rheolaidd.

34 Mae cynghorau ysgol yn gweithio'n dda gyda chyrff llywodraethol i wneud gwelliannau mewn rhai ysgolion. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r rhan fwyaf o ysgolion o ran datblygu cysylltiadau rhwng cynghorau ysgol a chyrff llywodraethol ac nid yw'r cydweithrediad yn gynhyrchiol eto.

35 Dim ond lleiafrif o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt sydd wedi penodi llywodraethwyr disgyblion cysylltiol. Mewn tua hanner yr ysgolion hyn, y llywodraethwyr disgyblion cysylltiol yw'r prif fachgen a'r brif ferch, wedi'u dewis gan aelodau o staff ac nid wedi'u hethol gan ddisgyblion, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

36 Mae llawer o benaethiaid yn teimlo nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi digon o arweiniad am y rheoliadau yn ymwneud â llywodraethwyr disgyblion cysylltiol. Nid yw rhai ysgolion yn ymwybodol ohonynt. Yn ychwanegol, nid yw rhai penaethiaid a chyrff llywodraethol yn cytuno â'r rheoliadau am rôl llywodraethwyr disgyblion cysylltiol ac felly maent yn osgoi eu rhoi ar waith.

37 Mewn un ysgol, mae athrawon uwch yn teimlo nad yw'r rheoliadau am lywodraethwyr disgyblion cysylltiol yn mynd yn ddigon pell ac y dylai disgyblion gael yr un hawliau pleidleisio â llywodraethwyr eraill. Cafodd y farn hon ei hannog gan benderfyniad y corff llywodraethol yn ddiweddar i newid polisi'r ysgol ar gamddefnyddio sylweddau. Collodd cynnig yr uwch dîm rheoli o un bleidlais yng nghyfarfod y corff llywodraethol. Roedd y dirprwy bennaeth yn teimlo pe bai'r llywodraethwyr disgyblion cysylltiol wedi gallu pleidleisio hefyd, yna byddent wedi ennill y bleidlais i wella'r ffordd y caiff disgyblion eu cefnogi, a newid y polisi ar gamddefnyddio sylweddau.[6]

[6] Mae 'Arweiniad ar gyfer Cyrff Llywodraethol ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol' Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan, er na all llywodraethwyr disgyblion cysylltiol bleidleisio yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, "gallant fod yn aelodau o bwyllgorau corff llywodraethol

38 Dim ond lleiafrif o gyfarfodydd cyngor ysgol sy'n cael eu cadeirio a'u gweinyddu'n llawn gan ddisgyblion. Athrawon sy'n cadeirio cyfarfodydd llawer o gynghorau ysgol ac nid ydynt yn caniatáu i ddisgyblion reoli'r cyfarfod. Mae hyn yn aml oherwydd nad yw athrawon yn credu bod gan ddisgyblion y medrau, yr hyder na'r aeddfedrwydd i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o staff fod yn bresennol mewn cyfarfodydd i oruchwylio yn unig.

39 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn credu ei bod yn bwysig i ddisgyblion wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ysgolion. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid yw rhai athrawon dosbarth yn gwerthfawrogi'r cyngor ysgol. Nid yw'r athrawon dosbarth hyn yn rhoi digon o amser i ddisgyblion drafod neu roi adborth o gyfarfodydd y cyngor ysgol. Mae'r disgyblion yng ngrwpiau dosbarth yr athrawon hyn fel arfer yn teimlo nad yw eu llais yn cael ei glywed o ganlyniad.

40 Yn y cynghorau ysgol mwy datblygedig, mae pob disgyblion yn cyfrannu'n hyderus yn ystod cyfarfodydd. Mewn cynghorau ysgol sy'n llai aeddfed, mae rhai disgyblion yn rheoli'r trafodaethau, a'r disgyblion hŷn yw'r rhain fel arfer.

41 Mae gan leiafrif o gynghorau ysgol gysylltiadau da â fforwm ieuenctid eu hawdurdod lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn galluogi disgyblion i gyfrannu at wneud penderfyniadau y tu hwnt i ffiniau eu hysgolion eu hunain neu'r gymuned leol. Gallant ddylanwadu ar gynlluniau strategol lleol a chyfrannu syniadau i aelodau etholedig awdurdod lleol[7] eu hystyried. Yn yr achosion hyn, mae cynghorau ysgol yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid i gyfrannu barn pobl ifanc at ddogfennau fel Cynlluniau Addysg Sengl.

42 Yn y nifer fach o ysgolion lle nad yw penaethiaid a llywodraethwyr yn cydymffurfio â rheoliadau, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn am yr ysgol. Yn ychwanegol, yn yr ysgolion hyn, ni roddir digon o anogaeth i ddisgyblion weithio yn annibynnol a datblygu medrau gwneud penderfyniadau trwy ymchwilio ac ymholi.

43 Roedd adroddiad Estyn ar gyfranogiad mewn ysgolion cynradd a gyhoeddwyd y llynedd, a'r adroddiad ar wasanaethau cymorth ieuenctid yn 2005-2006, yn nodi'r duedd gynyddol tuag at gyflogi 'swyddogion cyfranogi' neu 'swyddogion cyngor ysgol' i helpu ysgolion i fodloni'r gofynion statudol ar gyfer cynghorau ysgol. Mae'r duedd hon wedi arwain at wneud penderfyniadau am gyfranogiad disgyblion y tu allan i ysgolion cynradd sy'n golygu bod athrawon mewn ysgolion cynradd yn colli perchnogaeth ar y penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr a rheolwyr yn cymryd perchnogaeth gref ar ddatblygiadau'r cyngor ysgol ac yn arwain y rhan fwyaf o'r gwaith gyda disgyblion.

44 Dangosir dadansoddiad o'r graddau a ddyfarnwyd i ysgolion uwchradd a arolygwyd rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007 am ran o gwestiwn allweddol 4 y Fframwaith Arolygu Cyffredin[8] yn y siart isod. Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chynghorau ysgol yn gyfan gwbl.

---

anstatudol ac fe gânt bleidleisio yn y pwyllgorau hynny os yw'r corff llywodraethol yn rhoi hawliau pleidleisio iddynt."

[7] Cyfeiriwch at yr adran gwasanaethau Awdurdod Addysg Lleol yn yr atodiad.

[8] Cwestiwn 4.1

A yw'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau a gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol, gan gynnwys cyfarfod â'r cyngor ysgol i bennu barn disgyblion?

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
58%	37%	2%	2%	0%

Mae'r siart yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cefnogi disgyblion yn dda a'u bod yn gwrando ar eu barn trwy'r cyngor ysgol wrth gynllunio ac adolygu'r gofal y maent yn eu darparu.

Dulliau ysgol gyfan ar gyfer cyfranogi

45 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae llwyddiant y cyngor ysgol wedi arwain at fwy o weithgareddau lle mae gan ddisgyblion rôl flaenllaw, er enghraifft, wrth fentora cyfoedion a chodi arian ar gyfer elusennau. Yn yr ysgolion hyn, mae'r dull ar gyfer cyfranogiad disgyblion wedi treiddio i agweddau ehangach ar fywyd ysgol. Yn ychwanegol, mae llawer o ysgolion yn datblygu mwy o ffyrdd o sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael ei gwerthfawrogi a'i hystyried.

46 Yn yr achosion gorau, mae athrawon pwnc unigol yn defnyddio adborth gan ddisgyblion i wella dulliau addysgu a dysgu. Mae disgyblion yn dylanwadu fwyfwy ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r modd y maent yn dysgu. Er enghraifft, mewn un dosbarth Saesneg, awgrymodd y disgyblion y dylid astudio cerdd wahanol y flwyddyn ganlynol. Newidiodd yr athro/athrawes y gerdd i gerdd a oedd yn gweddu'n well i ddiddordebau'r disgyblion, a gwelwyd bod eu cymhelliant wedi cynyddu, ac arweiniodd hyn yn ei dro at lefelau uwch o ymglymiad yn y rhan honno o'r cwrs.

47 Mae rhai ysgolion yn defnyddio TGCh yn dda i wrando ar ddysgwyr. Mae enghreifftiau yn cynnwys defnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir, arolygon a meddalwedd pleidleisio. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn cael safbwyntiau pob disgybl, yn eu cynnwys wrth eu dadansoddi ac wrth benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gymryd camau cynnar ac effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon disgyblion.

Astudiaeth achos 4: Gwneir defnydd da o'r dadansoddiad o ganlyniadau o offer archwilio hunanasesiad disgyblion i lywio'r cynllunio ar gyfer dysgu.	Mae ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yng nghymoedd de Cymru yn gwneud defnydd da o arolwg o deimladau disgyblion am yr ysgol, eu gallu dysgu canfyddedig, eu hunan-barch, eu parodrwydd ar gyfer dysgu, eu hagweddau at athrawon, moeseg waith gyffredinol, hyder dysgwyr, eu hagwedd at bresenoldeb, a'u hymateb i'r cwricwlwm. Mae athrawon yn croesgyfeirio at y dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg a data yn ymwneud â chyflawniad, presenoldeb, rhyw a chefndir economaidd gymdeithasol. Wedyn, mae uwch reolwyr yn defnyddio'r data i nodi disgyblion a allai elwa ar gael cymorth gan hyfforddwr dysgu. Mae tiwtoriaid dosbarth ac athrawon pwnc yn defnyddio'r wybodaeth i wella'u dealltwriaeth o'r disgyblion yn y dosbarth i osod targedau a theilwra'r addysgu a'r dysgu yn unol ag anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol ar ei thrydedd flwyddyn yn defnyddio'r arolwg hwn ac mae'n dechrau dadansoddi data dros gyfnod o sawl blwyddyn, er mwyn nodi tueddiadau i weld a yw dulliau newydd yn gweithio. Mae defnyddio'r offer yn ategu'r cyngor ysgol effeithiol wrth sicrhau bod barn y disgyblion yn yr ysgol yn cael ei defnyddio i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

48 Mae un ysgol yn targedu disgyblion sy'n tangyflawni ac mewn perygl o beidio â mynychu'r ysgol ac mae'n eu hannog i fod yn fwy gweithredol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â pha bynciau y maent yn eu hastudio ac ym mha leoliad. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu agweddau mwy cadarnhaol ymhlith disgyblion tuag at yr ysgol a dysgu oherwydd maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mwy yn y prosesau sy'n effeithio arnynt.

49 Yn aml, mae ysgolion yn galluogi disgyblion i gymryd rhan yn rheolaidd wrth osod ac adolygu eu targedau eu hunain. Lle bydd disgyblion yn cael cymorth mentor hefyd, caiff hyn effaith sylweddol ar safonau cyflawniad.

Astudiaeth achos 5: Mae disgyblion mewn ysgol yng nghymoedd gorllewinol de Cymru yn cael eu cynnwys yn y broses o osod targedau ac maent yn cyflawni canlyniadau da.	Mewn un ysgol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn y broses dymhorol o osod ac adolygu graddau targed TGAU rhwng Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11. Bob blwyddyn, caiff tua chwe deg o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 eu dewis i gael mentora arbenigol. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd rhan yn y broses o osod ac adolygu eu graddau targed TGAU bob wythnos gydag athrawon pwnc. Yna, caiff y rhain eu trafod bob wythnos gyda'u mentor, sy'n aelod o'r uwch dîm rheoli. Caiff unrhyw faterion eu trafod rhwng y disgybl a'r mentor ac mae'r ysgol yn rhoi mwy o gymorth yn unol â'r angen, trwy glybiau 'dal i fyny' ar ôl yr ysgol, er enghraifft. Cofnodir y targedau ar grid ar fewnrwyd yr ysgol er mwyn i bob aelod o staff gael mynediad ato. Mae disgyblion sy'n bodloni'r targedau neu'n rhagori arnynt yn cael pwyntiau teilyngdod y gellir eu cyfnewid am wobrau. Mae'r disgyblion yn helpu i benderfynu ar ba wobrau sydd ar gael. Mae manylder a natur gyson ymglymiad y disgyblion wrth osod targedau yn nodwedd allweddol. Roedd yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad TGAU yn ystod y tair blynedd diwethaf.

50 Mae gan rai ysgolion gysylltiadau effeithiol â sefydliadau eraill yn y gymuned sy'n helpu disgyblion i ddatblygu mwy o fedrau wrth wneud penderfyniadau. Maent yn gweithio gyda chynghorau ysgol mewn ysgolion cynradd partner i ddylanwadu ar y broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er enghraifft, mae disgyblion ym mlynyddoedd 8 a 9 wedi cymryd camau i wneud yn siwr bod disgyblion blwyddyn 7 yn cael gwybodaeth dda, eu bod yn adnabod wyneb cyfeillgar a'u bod felly'n fwy hyderus pan fyddant yn cyrraedd eu hysgol newydd. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion yn aml yn trafod agweddau ar ddysgu y tu allan i oriau ysgol, cysylltiadau cludiant ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc yng nghymuned yr ysgol.

51 Dangosir dadansoddiad o'r graddau a ddyfarnwyd i ysgolion uwchradd rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007 am ran o gwestiwn allweddol 6 yn y siart isod. Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chyfranogiad disgyblion yn gyfan gwbl.

A yw arweinwyr a rheolwyr yn gofyn am, ac yn ystyried barn disgyblion, staff a chyfranogion eraill?

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
30%	47%	21%	2%	0%

52 Mae'r siart yn dangos bod arweinwyr a rheolwyr mewn llawer o ysgolion yn rhoi ystyriaeth dda i farn disgyblion, staff a chyfranogion eraill. Mewn ysgolion sydd â nodweddion rhagorol, mae penaethiaid yn datblygu diwylliant o gyfranogiad yn yr ysgol, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae adroddiadau arolygu yn dangos yn gynyddol bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu.

53 Nifer fach iawn o ysgolion sy'n methu ymateb i farn disgyblion. Nid yw'r ysgolion hyn wedi blaenoriaethu cyfranogiad disgyblion ac nid ydynt wedi datblygu'r cyngor ysgol yn unol â'r rheoliadau. Nid oes gan yr ysgolion hyn ethos ysgol gyfan lle caiff cyfranogiad disgyblion ei werthfawrogi.

Defnyddio gwefan www.cynghorauysgolcymru.org.uk

54 Nod gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, www.cynghorauysgolcymru.org.uk , yw cefnogi datblygiad cynghorau ysgol. Mae adran gweithwyr proffesiynol a llywodraethwyr y wefan hon yn 'darparu gwybodaeth a deunyddiau cymorth ar gyfer oedolion sy'n ymwneud â helpu sefydlu a datblygu cyngor ysgol'. Mae wedi bod ar gael er mis Medi 2006 ac mae'n parhau i gael ei datblygu.

55 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu adroddiad ar wahân ar effaith cyfranogiad cynyddol yn yr ysgolion a gymerodd ran yn ail gyfnod cynllun peilot y Prosiect Cynghorau Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad hwn ond yn rhoi sylwadau ar y defnydd a wneir o'r wefan a'i effaith ar wella'r ffyrdd y mae cynghorau ysgol yn gweithio.

56 Mae athrawon sy'n gyfrifol am gynghorau ysgol mewn tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o'r wefan, ond llai na thraean o athrawon sydd wedi defnyddio'r wefan. Dim ond dau o'r athrawon y gwnaed arolwg ohonynt sy'n defnyddio'r wefan yn dda ac sydd wedi edrych ar y deunyddiau hyfforddi a'r astudiaethau achos.

57 Mae llai na 15 ysgol uwchradd ledled Cymru wedi cofrestru ar y wefan. Nid oes angen i ysgolion gofrestru er mwyn defnyddio'r safle, ond ni allant ddefnyddio ei nodweddion rhyngweithiol.

58 Nid oes unrhyw athrawon na llywodraethwyr wedi defnyddio'r wefan ers iddi gael ei chreu ym mis Ionawr 2007. Yn yr un modd, nid oes unrhyw ddisgyblion wedi defnyddio'r fforwm ar eu hadran nhw o'r wefan ers iddi gael ei chreu ym mis Mai 2007.

59 Nid oes angen adnoddau ar athrawon i gefnogi sefydlu neu ddatblygu eu cyngor ysgol oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn weithredol cyn i'r rheoliadau ddod i rym.

60 Nid oes digon o adnoddau ar gyfer cynghorau sydd eisoes wedi'u sefydlu'n dda, a ble mae mecaneg rhedeg cyngor ysgol yn gyfarwydd. Yn benodol, nid yw'r arweiniad yn canolbwyntio digon ar fanteision cyfranogiad a sut i ganolbwyntio gwaith y cynghorau ysgol ar addysgu a dysgu a gwella safonau mewn addysg.

61 Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon sydd wedi defnyddio'r wefan yn teimlo'i bod yn hawdd i'w defnyddio, ac maent yn credu mai'r astudiaethau achos yw'r rhan fwyaf defnyddiol o'r adnodd. Fodd bynnag, nid oes digon o astudiaethau achos ar gyfer cynghorau sy'n flaengar o ran eu datblygiad, yn benodol y rheiny sy'n disgrifio anhawster cael effaith sylweddol ar y broses o wneud penderfyniadau mwy heriol mewn ysgolion. Byddai ysgolion yn elwa ar astudiaethau achos ar:

- heriau rôl y llywodraethwr disgybl a sut i fynd i'r afael â nhw;
- sut i oresgyn pryder athrawon ynglŷn â defnyddio adborth disgyblion ar addysgu a dysgu; a
- phrosesau effeithiol ar gyfer sefydlu cynghorau ysgol i sicrhau perchnogaeth gan bob disgybl ac nid yn unig y nifer fach sy'n cymryd rhan.

62 Mae athrawon a disgyblion bron ym mhob ysgol yn gwerthfawrogi dysgu gan ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid oedd y dudalen 'Cysylltiadau â gwefannau Cynghorau Ysgol' ar y wefan yn darparu unrhyw ddolennau cyswllt pan gynhaliwyd yr arolwg ym mis Hydref 2007.

Atodiad: Cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau

Dysgu yn y gwaith

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn trefnu rhaglenni sefydlu defnyddiol sy'n helpu dysgwyr i ymgyfarwyddo â'u rhaglenni yn gyflym. Mae dysgwyr yn aml yn cwblhau holiaduron byr ar gyfnodau gwahanol o'u hyfforddiant i gyfleu eu barn i staff ar ansawdd y profiadau hyfforddi a dysgu. Fodd bynnag, nid yw digon o ddysgwyr yn cael digon o gyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

Gwasanaethau cymorth ieuenctid

Mae bron pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol a arolygwyd eleni yn gweithio'n galed i wneud yn siwr bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth am brosesau gwneud penderfyniadau ar bobl lefel, a'u bod yn cyfrannu atynt. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio o ddydd i ddydd yn y prosiectau y maent yn eu mynychu, ac maent hefyd yn ymwneud â chynllunio tymor hwy i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc fel gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae hyn wedi arwain at ymrwymiad cynyddol i gynnwys pobl ifanc, a dealltwriaeth ohono, gan aelodau cyngor ac uwch swyddogion awdurdodau lleol.

Addysg bellach

Mae arweinwyr a rheolwyr mewn addysg bellach (AB) yn gwneud defnydd da o ystod o ddulliau fel holiaduron, arolygon a grwpiau ffocws i wrando ar farn dysgwyr. Caiff y canlyniadau hyn eu dadansoddi a'u defnyddio i gynllunio gwelliannau. Er enghraifft, newid yr amser i osgoi pentyrru aseiniadau ar adegau penodol o'r tymor.

Mae gan bob coleg AB gynrychiolwyr myfyrwyr ar y corff llywodraethol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn gweithio'n dda iawn, yn enwedig pan fydd y llywodraethwr myfyriwr yn swyddog yn undeb y myfyrwyr. Mae'r cyrff llywodraethol gorau yn gwneud defnydd da o'r cyfle hwn i wrando ar farn dysgwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae myfyrwyr yn cyfrannu'n effeithiol at gynlluniau datblygu, polisïau a gweithdrefnau'r coleg. Mae timau cwrs yn cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr, fel arfer un o bob grŵp blwyddyn. Maent yn mynychu cyfarfodydd ac yn cyfrannu at drafodaethau am sut mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno a sut y gellir gwella'r cwrs.

Ymgynghorir â dysgwyr fwyfwy ynglŷn â'u hoff arddulliau dysgu. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae hyn yn dylanwadu ar yr addysgu yn dibynnu llawer ar ymroddiad athrawon. Gwneir defnydd da iawn o hoff arddulliau dysgu mewn rhai adrannau, fel trin gwallt ac adeiladu, lle mae arddulliau addysgu traddodiadol yn aml yn rhwystrau rhag dysgu effeithiol beth bynnag.

Gwasanaethau addysg awdurdod lleol

Mae tua hanner yr awdurdodau lleol a arolygwyd eleni yn ymgynghori'n effeithiol â dysgwyr am eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg. Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnwys pobl ifanc wrth ymgynghori ynglŷn â'r Cynllun

Addysg Sengl, ad-drefnu ysgolion a datblygiadau Llwybrau Dysgu 14-19. Yn aml, mae awdurdodau lleol yn defnyddio cynghorau ysgol a fforymau ieuenctid i gyrraedd defnyddwyr gwasanaeth.

Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn ymgynghori â phenaethiaid a rhieni yn unig, yn hytrach na gyda disgyblion, ynglŷn â thrafodaethau sy'n effeithio ar addysg pobl ifanc.

Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn rhoi gwybodaeth dda i hyfforddeion am gynnwys a gofynion eu cwrs hyfforddi. Maent yn darparu cyfleoedd da ar gyfnodau gwahanol o'r cwrs i hyfforddeion gynnig eu barn am ansawdd yr hyfforddiant a pherthnasedd deunydd y cwrs. Mewn llawer o achosion, mae hyfforddeion yn gwneud hyn trwy ymatebion i holiaduron ac mewn grwpiau trafod. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae darparwyr hyfforddiant athrawon yn gwahodd cynrychiolwyr hyfforddeion i fod yn aelodau o grwpiau gwneud penderfyniadau y brifysgol. At ei gilydd, mae darparwyr hyfforddiant i athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i farn hyfforddeion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i addasu cynnwys a strwythur y cyrsiau.